## CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **14 IONAWR 2010** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 TACHWEDD 2009** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o'r 1$^{af}$ Medi 2009 hyd at 30$^{ain}$ Tachwedd 2009.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y 3 mis hyd at 30$^{ain}$ Tachwedd 2009:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau ffurfiol am Archwiliadau a Gynlluniwyd | 19 |
| Archwiliad Ymatebol | 1 |
| Adroddiadau eraill (memoranda ayb) | 5 |
| Archwiliadau Dilyniant | 7 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30ain Tachwedd 2009, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Consortiwm Addysg | Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 Llywodraeth Cynulliad Cymru | B | Atodiad 1 |
| Addysg | Consortiwm Addysg | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cynulliad Cymru | B | Atodiad 2 |
| Addysg | Consortiwm Addysg | Grant Cymorth i Benaethiaid Mewn Ysgolion Bach Llywodraeth Cynulliad Cymru | B | Atodiad 3 |
| Addysg | Ysgolion | Cronfeydd Answyddogol | B | Atodiad 4 |
| Cyllid | Ariannol | Rheolaeth Sieciau | B | Atodiad 5 |
| Darparu a Hamdden | Hamdden | Canolfan Hamdden Penllyn | C | Atodiad 6 |
| Darparu a Hamdden | Hamdden | Canolfan Denis Arfon | C | Atodiad 7 |
| Darparu a Hamdden | Hamdden | Pwll Nofio Bangor | B | Atodiad 8 |
| Darparu a Hamdden | Hamdden | Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | C | Atodiad 9 |
| Darparu a Hamdden | Hamdden | Canolfan Hamdden Dwyfor | B | Atodiad 10 |
| Darparu a Hamdden | Hamdden | Canolfan Hamdden Bro Dysynni | B | Atodiad 11 |
| Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | Cartref Henoed Plas Maesincla, Caernarfon | B | Atodiad 12 |
| Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | Cartref Henoed Plas Hedd, Bangor | B | Atodiad 13 |
| Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | Eiddo Gwasanaethau Darparu - Comisiynu Gwaith | B | Atodiad 14 |
| Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | Rheolaeth Cyfluniad | C | Atodiad 15 |
| Rheoleiddio | Amgylchedd | Llwybrau Cyhoeddus | B | Atodiad 16 |

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Strategol a Gwella | Cyfeiriad Strategol | Grant Annibyniaeth a Lles | A | Atodiad 17 |
| Tai | Cynnal a Chadw Tai | Cynnal a Chadw Tai Cyngor - Llif Gwaith | A | Atodiad 18 |
| Tai | Tai Sector Breifat | Partneriaeth Gwella Tai - "Houseproud" | B | Atodiad 19 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn:

- Rheoli Contractau - Bondiau Perfformiad *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Cyfrifon Defnyddwyr *(Gofal Cwsmer)*
- Trefniadau archebu Nwyddau TG *(Gofal Cwsmer)*
- Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Gofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Trefniadau Trosglwyddo'r Stoc Dai *(Tai)*

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL YR ADRODDIAD | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Cyfrifiaduron Arunig | Corfforaethol | | **Derbyniol** |
| System Dyledwyr - Trefniadau Atal Biliau | Cyllid | Ariannol | **Derbyniol** |
| Costau Gweithwyr Cefnogol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | **Derbyniol** |
| Trwyddedau Adeiladwaith ar y Stryd | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | **Derbyniol** |
| Defnydd Is-Gontractwyr | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | **Derbyniol** |
| Rheolaeth Cytundeb Pryd ar Glud | Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | **Derbyniol** |
| Trwyddedau Meddalwedd mewn Ysgolion | Addysg | Ysgolion | **Rhagorol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2010**

Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa
Taliadau Ysgolion Uwchradd
Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2010**

Cartref Henoed Cefn Rodyn, Dolgellau
Canolfan Denis Arfon
Canolfan Hamdden Penllyn
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2010**

Rheolaeth Cyfluniad

## 2.4 Archwiliad Ymatebol

2.4.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol i Ysgol Uwchradd Tywyn ar gais y Pennaeth Cyllid. Mae crynodeb gweithredol yr adroddiad archwiliad a gynhyrchwyd wedi ei gynnwys fel Atodiad 20.

# 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1af Rhagfyr 2009.

## 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Cynnal Tiroedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Praeseptau *(Cyllid)*
- Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Rheolaeth Trysorlys *(Cyllid)*
- Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol *(Corfforaethol)*
- Diogelwch Asedau a Storfeydd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Ysgolion Cynradd - Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw *(Addysg)*
- Addysg All-Sirol - Trefniadau Anfonebu *(Cyllid)*
- Trethiant Lleol - Cytundeb Argraffu *(Cyllid)*
- Gorwariant Integreiddio *(Addysg / Cyllid)*
- Yr Hafan, Pwllheli *(Economi a Chymuned)*

## 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Llywodraethu Corfforaethol - Adolygiad Cymharol *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle *(Corfforaethol)*
- Telerau Contractau a Dogfennau Tendro *(Corfforaethol)*
- Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Plas y Don, Pwllheli *(Darparu a Hamdden)*
- Taliadau Dewisol *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Eithriadau, Tai gwag ayb *(Cyllid)*
- Gweithredu'r Adolygiad Tâl Lleol *(Cyllid)*
- Rheolaeth Gyllidebol *(Corfforaethol)*
- Trwyddedau Systemau Cyllid *(Cyllid)*
- Cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo *(Gofal Cwsmer)*
- Trefniadau Rheolwyr Cyfrif Perfformiad *(Corfforaethol)*
- Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru *(Strategol a Gwella)*
- Cytundebau Adran 106 *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Integreiddio *(Addysg)*
- Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd *(Addysg)*
- Gwasanaeth Morwrol *(Economi a Chymuned)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Cefnogi Pobl *(Tai)*
- Plant - Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Safleoedd Gwastraff Ailgylchu *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Rheolaeth Fflyd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Contractau Cyfredol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Cynllun Warden Stâd *(Tai)*
- Cyfrifon Terfynol: Tai *(Tai)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o $1^{af}$ Medi 2009 i $30^{ain}$ Tachwedd 2009, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# GRANT TROSGLWYDDO RHWNG CYFNODAU ALLWEDDOL 2 A 3
# LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaeth fewnol briodol ar gyfer gweinyddu arian grant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio os yw'r Awdurdod wedi bodloni meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru -

- Fod y Adran Addysg yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant.
- Fod trosglwyddiadau mewnol o'r arian grant a wneir i'r ysgolion wedi eu trin yn gywir.
- Fod dogfennaeth briodol yn cael eu cyflwyno/eu cadw gan yr ysgolion i gefnogi'r gwariant.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 22 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 17 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen trosglwyddo'r arian sydd wedi ei gadw yn ganolig i'r cyfeireb cyfriflyfr priodol.**
- **Dylid sicrhau bod pob dalgylch wedi paratoi Cynllun Trosglwyddo ar gyfer 2008/09 a'i gyflwyno i'r Awdurdod Lleol.**
- **Dylid sicrhau bod pob dalgylch wedi cadw tystiolaeth o bob gwariant sydd yn ymwneud â'r grant ar ffeil priodol, i gefnogi unrhyw ddefnydd o'r arian grant.**

## GRANT Y FENTER BRECWASTAU AM DDIM MEWN YSGOLION CYNRADD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod defnydd cywir o'r arian sydd wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 'Cynllun Grant y Fenter Brecwastau am Ddim Mewn Ysgolion Cynradd (PSFBI)', fel bod pob ysgol gynradd sy'n darparu brecwast am ddim wedi ei chofrestru â'r fenter ac yn gymwys i gymryd rhan. Ymhellach, sicrhau bod trefniadau o weinyddu'r fenter yn gywir.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwrio sampl o ysgolion sydd yn darparu brecwast am ddim o'r tair ardal er mwyn sicrhau eu bod yn cael ei gweinyddu yn gywir a bod ceisiadau penodol yn cael eu gwneud i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 51 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 45 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn 'Grant y Fenter Brecwastau am Ddim Mewn Ysgolion Cynradd' gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle fel bod goruchwyliwr llanw ar gael os yw un o'r goruchwyliwr arferol yn absennol.**
- **Dylid sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei gynnig i oruchwylwyr yn unol â anghenion hyfforddi gofynnol mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei adnabod.**
- **Dylai'r ysgolion gwblhau a chadw cofrestrau annibynnol gydag enwau'r disgyblion sydd yn mynychu'r fenter brecwast am ddim yn ddiogel am o leiaf 3 blynedd.**
- **Dylid sicrhau bod pob taliad yn cael ei wneud o fewn gofyniad taladwy'r cyflenwr.**
- **Dylid anfon llythyr penodi sydd yn cynnwys telerau cyflogaeth i bob goruchwyliwr newydd.**
- **Dylai'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol arwyddo trosglwyddiad mewnol fel cadarnhad bod swm yr anfoneb yn gywir ac nad oes camgymeriadau wedi ei wneud wrth fewnbynnu'r symiau a chytunwyd.**

## GRANT CYMORTH I BENAETHIAID MEWN YSGOLION BACH LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod yr arian grant wedi ei ddyrannu yn ôl meini prawf canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio os yw'r Awdurdod wedi bodloni meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru,

- Bod trefn weinyddu priodol yn bodoli,
- Arian wedi ei ddyrannu'n deg, a
- Bod yr arian wedi ei ddosbarth yn unol â phwrpas y grant.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 13 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 11 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth 'Grant Cymorth i Benaethiaid Mewn Ysgolion Bach gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid rhestru'r holl ysgolion sydd gyda 90 o ddisgyblion neu lai ynghyd â'r ymrwymiad dysgu ar un ffurflen.**
- **Mae angen i'r ysgolion gadw cofnod o holl wariant sydd yn ymwneud â'r dyraniad cyd-weithio ac yna anfon y dystiolaeth i'r Swyddog Gwella Anasawdd Addysg Cynorthwyol. Yna bydd y Swyddog Gwella Anasawdd Addysg Cynorthwyol yn gallu cadarnhau bod yr arian grant cyd-weithio wedi ei wario i gyd ac yn unol â'r cais a wnaethpwyd.**

# CRONFEYDD ANSWYDDOGOL
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu cronfeydd answyddogol yn ysgolion cynradd Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Dewis sampl o ysgolion o'r tair ardal yng Ngwynedd a gwneud gwiriadau i sicrhau bod y cronfeydd answyddogol yr ysgolion yn cael eu gweinyddu yn unol â rheolau ariannol i ysgolion a safonau Estyn.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 14 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 8 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd methiant yr ysgolion i yrru copïau o'r mantolenni a chofnod y llywodraethwyr i'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn flynyddol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Cronfeydd Answyddogol yn yr ysgolion cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai ysgolion gadw copïau o anfonebau i gefnogi unrhyw wariant a wneir gydag arian o'r cronfeydd answyddogol.**
- **Byddai'n ymarfer da be fyddai ysgolion yn rhoi derbynneb allan ar gyfer unrhyw arian a dderbynnir i mewn i'r gronfa.**
- **Dylai'r Pennaeth gyflwyno'r cyfrifon archwiliedig, tystysgrif yr archwiliwr ac adroddiad ysgrifenedig ar y cyfrifon i'r corff llywodraethol mor fuan â phosib ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifo.**
- **Dylid sicrhau os oes newid yn llofnodwyr sieciau'r cronfeydd answyddogol fod y penaethiaid yn sicrhau bod y llofnodwyr newydd yn cael eu hawdurdodi yn gyntaf gan y corff llywodraethol.**
- **Dylid sicrhau bod pob ysgol yn anfon adroddiad archwiliwr y gronfa answyddogol ynghyd â chofnod o'r pwyllgor perthnasol yn cydnabod derbyn y cyfrifon i'r Gwasanaethau Archwilio a Rheoli Risg yn flynyddol.**
- **Dylid sicrhau nad yw unrhyw incwm sy'n ymwneud â chyllideb ddirprwyedig ysgolion yn cael ei gredydu i unrhyw gronfa answyddogol, hyd yn oed dros dro.**

# RHEOLAETH SIECIAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaeth priodol mewn lle dros y defnydd o sieciau gan Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn adolygu'r rheolaethau mewn perthynas â rheoli stoc, cynhyrchu a dosbarthu sieciau a chynnal cysoniadau. Bydd sylw penodol hefyd yn cael ei roi i'r trefniadau ar gyfer cynhyrchu sieciau agored.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, mae'r gweithdrefnau mewn perthynas â rheoli sieciau yn unol â'r disgwyl ac mae’r holl swyddogion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rhesymeg. Fodd bynnag, mae rhai meysydd sydd angen sylw.

- Nid oedd yr Arianwyr â chanllawiau ysgrifenedig mewn lle ar adeg yr archwiliad.
- Mae'r archwilwyr o'r farn bod sgôp i adolygu'r achosion ble defnyddir sieciau agored.
- Nodwyd fod angen diweddaru mandad banc ar gyfer swyddogion awdurdodedig yr Uned Budd-dal Tai fel bod cyfleuster agor sieciau ar gael ym mhob swyddfa ardal, tra bydd y consesiwn yma yn parhau i fod ar gael i'r cwsmeriaid.
- Yn ogystal, nodwyd rhai achosion ble mae angen diweddaru'r rhestrau o swyddogion a llofnodion awdurdodedig ar gyfer cyflwyno ffurflenni pennawd swp taliadau (TR257).

### Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y rheolaeth o sieciau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Uned yr Arianwyr greu canllawiau ysgrifenedig ar gyfer eu gweithgareddau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli sieciau.**
- **Fel rhan o’r broses cyd-weddu â’r strwythur staff newydd yn dilyn ail-strwythuro 2009, dylid cyflwyno rhestrau newydd o swyddogion sydd â hawl arwyddo ffurflenni pennawd swp (TR257), ynghyd ag esiampl o’i llofnodion.**
- **Dylid anelu i beidio dechrau trefniant newydd i dalu drwy siec agored i unigolion, gydag amcan tymor hir o ddiweddu'r arferiad yn gyfangwbl.**
- **Dylid ymholi gyda sefydliadau, ac yn arbennig awdurdodau lleol, eraill yn yr ardal sydd yn gweithredu mewn meysydd tebyg gan ddatgelu pa ddulliau talu sydd mewn defnydd lle mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio sieciau agored ar hyn o bryd, gan asesu os byddai dulliau amgen yn ymarferol a gweithredadwy i'r Cyngor.**

# CANOLFAN HAMDDEN PENLLYN
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, Y Bala er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar samplau o drafodion ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008/2009 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2009/2010 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc a sicrhau bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd yn ystod yr archwiliad hwn bod achosion o reolaethau da yn bodoli mewn trefniadau diogelwch a threfniadau gwirio offer a chyflwr y pwll. Fodd bynnag, gwelwyd bod nifer o wendidau wrth edrych ar agweddau ariannol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Pan wneir ad-daliad, dylai'r cwsmer a'r Rheolwr ar Ddyletswydd lofnodi'r dderbynneb i gadarnhau fod y cwsmer wedi derbyn yr ad-daliad. Dylai'r dderbynneb yma gael ei chadw gyda'r dogfennau bancio.**
- **Dylid sicrhau bod y swyddog sy'n llenwi'r daflen Cais i Godi Anfoneb yn ymwybodol o'r rheolau TAW perthnasol a dylid nodi ar y daflen os yw TAW yn gynwysedig yn y pris eisoes. Ymhellach, dylid sicrhau ei bod yn nodi'r gost gywir ar y daflen.**
- **Dylid sicrhau bod anfonebion yn mynd yn erbyn y clwb / cwmni / unigolyn cywir.**
- **Dylid bod arwyddion cadarn ym mhob derbynfa yn egluro na chaniateir tynnu lluniau heb ganiatâd y Rheolwr o flaen llaw.**
- **Dylid sicrhau bod Rheolwr y Ganolfan yn arwyddo'r ffurflenni CD692 a CD693 i gadarnhau bod caniatâd i dynnu llun. Os nad yw hyn yn bosib, yna dylai'r Rheolwr Cyfleusterau ei arwyddo. Ni ddylai yr un swyddog arwyddo ar ran y ffotograffydd/person sy'n caniatáu llun o'u plentyn ac ar ran y Ganolfan.**

# CANOLFAN DENIS ARFON
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yng Nghanolfan Denis Arfon er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad

Edrych ar samplau o drafodion ariannol ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol 2008/2009 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2009/2010 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc a sicrhau bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rhai achosion lle 'roedd enghreifftiau o reolaethau da yn bodoli. Mewn achosion eraill gwelwyd nad oedd y rheolaethau mewnol yn foddhaol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Canolfan Denis Arfon gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai cyfnod cadw'r adroddiadau ariannol fod yn unol â pholisi cadw'r Cyngor, sef hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol ac yna am ddwy flynedd.**
- **Dylid sicrhau nad yw staff y Ganolfan wedi logio mewn ar y system gyfrifiadurol ar fwy nag un cyfrifiadur.**
- **Dylid sicrhau nad oes swyddog yn awdurdodi ei amserlen ei hun. Mae angen swyddog gwahanol sydd â'r hawl i wneud hynny ac sy'n gallu cadarnhau bod yr oriau a nodwyd yn gywir a'i awdurdodi. Yn ddelfrydol dylai'r swyddog yma fod yn Reolwr Llinell i'r gweithiwr.**
- **Dylid derbyn o leiaf tri amcan bris ar gyfer archebion sydd gyda gwerth rhwng £5,000 a £50,000 a chadw cofnod o hynny.**
- **Dylid sicrhau bod gwahanu yn nyletswyddau wrth archebu a thalu am nwyddau. Dylid bod swyddog awdurdodedig yn arwyddo'r archeb, swyddog gwahanol yn arwyddo'r blychau yn y slip godio drwy sicrhau ei fod yn gallu cadarnhau beth mae'r blychau yn gofyn amdano, a swyddog gwahanol yn ardystio'r anfoneb (rhaid i'r swyddog yma fod â hawl i ardystio). Mae angen felly sicrhau bod o leiaf tri swyddog yn rhan o'r broses.**
- **Ni ddylid defnyddio arian sydd wedi ei glustnodi fel arian fflôt ar gyfer imprest.**
- **Dylid rhoi posteri clir yn yr ystafell ffitrwydd sy'n nodi bod atebolrwydd y Cyngor wedi ei eithrio petai rhywun yn defnyddio'r ystafell heb dderbyn anwythiad.**

# PWLL NOFIO BANGOR
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli ym Mhwll Nofio Bangor er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar samplau o drafodion ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008/2009 a'r flwyddyn ariannol 2009/2010 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc a sicrhau bod y Ganolfan yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod enghreifftiau o ymarfer da yn y rhan fwyaf o achosion yn yr archwiliad hwn. Lle nad yw hyn yn wir, gwnaethpwyd argymhellion er mwyn gwella'r trefniadau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Pwll Nofio Bangor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cynhyrchu yr adroddiad ad-daliadau am fis cyfan a'i lofnodi a'i ddyddio i gadarnhau fod y gwiriadau angenrheidiol wedi cymryd lle.**
- **Dylid sicrhau fod dau swyddog bob amser yn gwirio'r Ffurflenni Dadansoddiad Arian ac yn eu llofnodi i gadarnhau eu bod wedi gwneud hynny.**
- **Pan mae clwb yn canslo sesiwn oddi ar llogiad bloc, yna ni ddylid rhoi ad-daliad iddynt. Yr unig adeg dylid rhoi ad-daliad am sesiwn o logiad bloc sydd wedi ei ganslo yw os mai'r Ganolfan ei hun sy'n canslo yn hytrach na'r clwb. Ymhellach, dylid codi tâl llawn gyda TAW am unrhyw logiadau ychwanegol, heblaw os yw'n logiad bloc yn ei hun h.y. wedi ei logi o flaen llaw ac yn 10 sesiwn neu fwy.**
- **Dylid sicrhau bod amcan brisiau a dderbyniwyd gan y cwmnïau am archebion / gontractau sydd werth £5,000 neu fwy yn cael eu cadw ar ffeil. Ymhellach, dylid sicrhau fod y rhain yn cael eu cadw am ddim llai na hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol ac yna am ddwy flynedd.**
- **Dylid sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal pob tri mis yn unol â Pholisi Tân a Gwacau'r Gwasanaeth Hamdden.**

## CANOLFAN HAMDDEN PLAS FFRANCON
### Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar samplau o drafodion ariannol ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol 2008/2009 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2009/2010 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc a sicrhau bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd yn ystod yr archwiliad hwn fod enghreifftiau o ymarfer da i'w gweld yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon. Mae'r mwyafrif o achosion lle nad oedd y trefniadau cystal i'w gweld yn y trefniadau ariannol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Canolfan Hamdden Plas Ffrancon gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Pan wneir ad-daliad, dylid sicrhau fod y cwsmer a'r Rheolwr ar Ddyletswydd yn llofnodi'r dderbynneb i gadarnhau bod yr ad-daliad wedi ei wneud a'i fod yn ddilys.**
- **Dylid hefyd sicrhau bod swyddogion yn logio oddi ar y system Gladstone MRM pan nad ydynt yn ei ddefnyddio.**
- **Dylai fod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod incwm sydd ddim wedi dod i mewn drwy'r banc yn cael ei adfer.**
- **Dylid llenwi a chadw'r ffurflen cofnodi bancio 'Banking Record Sheet' ac i'r swyddogion perthnasol ei arwyddo.**
- **Dylid sicrhau fod swm y fflôt yn gywir yn y cyfriflyfr.**
- **Dylid sicrhau bod staff y Ganolfan yn ymwybodol o sut i lenwi'r taflenni TR34 yn gywir ac i ddefnyddio'r codau byr cywir. Ymhellach, dylid sicrhau bod y cyfansymiau'n cysoni rhwng y TR34, llyfr talu i mewn i'r banc a'r darlleniad 'Z'.**
- **Dylid sicrhau fod pob taflen TR34 yn cael eu gyrru ymlaen i'r Cymhorthydd Incwm.**
- **Dylid sicrhau bod allweddau'n cael eu cadw mewn man lle na all swyddogion anawdurdodedig gael mynediad iddynt.**
- **Dylid sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob tri mis yn unol â Pholisi Tân a Gwacau'r Adran Hamdden.**

# CANOLFAN HAMDDEN DWYFOR
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yng Nghanolfan Hamdden Dwyfor, Pwllheli.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar sampl o drafodion ariannol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2008/2009 a 2009/2010 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc a sicrhau bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau
Yn yr archwiliad yma, gwelwyd bod enghreifftiau o reolaethau da yn bodoli yn y mwyafrif o achosion, yn enwedig wrth reoli stoc a chyfrifo colled ac elw. Ond, gwelwyd hefyd bod ambell i faes lle mae angen sylw pellach ar y rheolaethau sy'n bodoli er mwyn lliniaru'r risg ymhellach.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Canolfan Hamdden Dwyfor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid llofnodi a dyddio'r adroddiad ad-daliadau i gadarnhau ei fod wedi ei wirio. Ni ddylai'r swyddog sy'n gwirio fod wedi gwneud yr ad-daliad sydd ar yr adroddiad.**
- **Dylid sicrhau derbyn o leiaf tri amcan bris am archeb sydd werth rhwng £5,000 a £50,000 yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Ymhellach, dylid sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw ar ffeil fel tystiolaeth.**
- **Dylid fod gwahaniaethu priodol yn y broses o archebu, gwirio'r anfoneb ac ardystio'r anfoneb i'w thalu.**
- **Dylid bod aelod o staff y Ganolfan yn llofnodi'r Ffurflen Cofrestru Tynnu Llun.**
- **Dylid sicrhau bod y system yn mynnu bod staff yn newid eu trwyddedair yn rheolaidd.**

# CANOLFAN HAMDDEN BRO DYSYNNI
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yng Nghanolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad

Edrych ar samplau o drafodion ariannol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2008/2009 a 2009/2010 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc a sicrhau bod y Ganolfan yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod enghreifftiau o ymarfer da i'w gweld mewn rhannau helaeth o weithrediad Canolfan Hamdden Bro Dysynni. Ychydig o achosion lle nad oedd hyn yn wir oedd wrth lofnodi taflenni i gadarnhau bod y wybodaeth arnynt yn gywir, neu wedi ei wirio.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Canolfan Hamdden Bro Dysynni gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod derbynneb sy'n dangos yr ad-daliad gyda llofnod y cwsmer ac aelod o staff ar gyfer pob ad-daliad.**
- **Dylid sicrhau bod swyddogion yn logio oddi ar y system Gladstone pan maent yn mynd oddi ar y cyfrifiadur.**
- **Dylid sicrhau bod swyddog gwahanol i'r un sydd yn llofnodi'r archeb yn gwirio ac yn llofnodi'r blychau ar y slip godio. Efallai hefyd y byddai o fudd i swyddogion perthnasol fynd ar y cwrs 'Trefniadau Ariannol' sy'n cael ei gynnal yn fewnol gan y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau fod anfonebau'n cael eu talu'n brydlon o fewn 30 diwrnod.**
- **Dylid sicrhau bod y rhestr eiddo'n cael ei ddiweddaru bob amser mae offer yn cael ei brynu neu ei waredu. Dylai'r swyddog sy'n gwneud y gwiriad blynyddol fod yn annibynnol i'r swyddog sy'n ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn.**

## CARTREF HENOED PLAS MAESINCLA, CAERNARFON
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch Plas Maesincla yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl cofnodion cyfriflyfr ariannol ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau ariannol a diogelwch y Cartref. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau ariannol a diogelwch Plas Maesincla, Caernarfon gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod yr archeb yn cael ei lofnodi gan swyddog awdurdodedig ar bob achlysur.**
- **Dylai'r blwch "Derbyniwyd" ar y slip côdio TR252 gael ei arwyddo gan y swyddog sydd yn gallu cadarnhau bod y gwasanaeth a ddarparwyd wedi cymryd lle; y bylchau gwirio eraill gael eu llofnodi gan swyddog sydd ddim yn llofnodi'r blwch "Derbyniwyd" ac sydd ddim yn ei ardystio; a'r taliad gael ei ardystio gan reolwr y gyllideb.**
- **Dylid cwblhau'r blwch "Dyddiad derbyn y nwyddau neu wasanaeth" ar yr archeb er mwyn cyfiawnhau bod y nwyddau / gwasanaeth wedi ei dderbyn.**
- **Dylid sicrhau bod y Cartref yn gofyn i'r cyflenwr / darparwr osod pris ar yr archeb a sicrhau bod y pris yn cael ei gofnodi ar yr archeb.**
- **Dylid sicrhau nad yw'r un swyddog yn llofnodi'r bylchau gwirio ar y TR252 nag yn ei ardystio i'w dalu.**
- **Dylid sicrhau fod taliadau yn cael eu gwneud o fewn mis dyddiad yr anfoneb.**
- **Dylid sicrhau fod Rheolwr y Cartref yn llofnodi ac yn dyddio'r bil ffôn misol i gadarnhau'r gwiriad a'i bod yn briodol.**
- **Dylai bod Rheolwr y Cartref yn naill ai yn llofnodi'r ffurflen GE30 neu yn anfon e-bost i gadarnhau bod y ffurflen wedi ei awdurdodi i'w brosesu.**

## CARTREF HENOED PLAS HEDD, BANGOR
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch Cartref Plas Hedd, Bangor yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yn y cyfriflyfr ariannol ynghyd â threfniadau rheolaeth y cartref.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau da yn bodoli mewn amryw o achlysuron, megis cadw cofnod o eiddo'r preswylwyr. Fodd bynnag, mae achosion, yn enwedig materion yn ymwneud ag arian imprest, lle nad oedd y rheolaethau mor foddhaol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Plas Hedd, Bangor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ymchwilio i'r rhesymau pam fod gwariant Plas Hedd yn uwch o'i gymharu â chartrefi eraill.**
- **Rhaid sicrhau bod archebion swyddogol yn cael eu codi ymlaen llaw, neu os oes angen gwneud archeb ar lafar oherwydd brys, dylid eu gyrru'r diwrnod hwnnw neu'r diwrnod gwaith canlynol i gadarnhau'r archeb.**
- **Ni ddylid delio gyda materion bancio personol y preswylwyr oherwydd y risgiau sydd ynghlwm.**
- **Dylid newid y rhif sy'n rhoi mynediad i'r sêff yn rheolaidd.**
- **Dylai'r Cartref gadw cofnod cyflawn o'r trafodion yn y cyfrif amwynder. Dylid bod cofnod o'r arian sy'n dod i mewn, yr arian sy'n mynd allan, yn ogystal â balans rhedegol.**
- **Dylid sicrhau fod y rhestr eiddo'n cael ei wirio'n flynyddol a bod y swyddog sy'n gwneud hynny'n ei lofnodi a'i ddyddio i gadarnhau fod y wybodaeth yn gywir. Yn ychwanegol, dylai fod swyddog yn llofnodi a dyddio'r rhestr bob tro mae eiddo'n cael ei ychwanegu i'r rhestr yn ystod y flwyddyn a bod y swyddog hwnnw'n annibynnol o'r un sy'n gwneud y gwiriad blynyddol.**
- **Dylid sicrhau bod y cyfrif imprest bob amser yn aros mewn credyd yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol 16.12.**
- **Dylid sicrhau mai ond swyddogion sydd gydag awdurdod sydd yn ardystio'r ceisiadau am ad-dalu arian imprest.**

# EIDDO GWASANAETHAU DARPARU - COMISIYNU GWAITH
## Darparu a Hamdden

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y rheolaethau priodol yn bodoli yn y broses o gomisiynu gwaith ar eiddo Preswyl a Dydd yr Adran Ddarparu a Hamdden.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Edrych ar sut defnyddir y gyllideb, y broses o archebu nwyddau a gwasanaethau ac os yw gwaith angenrheidiol yn cael ei gyflawni'n brydlon. Nid yw'r archwiliad yn ystyried eiddo'r Gwasanaeth Hamdden.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd fod rheolaeth dda i'w weld yn y mwyafrif o weithdrefnau a adolygwyd yn ystod yr archwiliad. Un mater sy'n codi yw'r ffaith bod y côd gwariant yn cael ei nodi fel petai o dan reolaeth yr adran berthnasol yn hytrach na'r Gwasanaeth Eiddo.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Eiddo Gwasanaethau Darparu - Comisiynu Gwaith gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r cyfriflyfr adlewyrchu pwy sydd mewn gwirionedd yn rheoli'r gyllideb.**
- **Dylid sicrhau bod archeb swyddogol yn cael ei gyrru pob tro mae gwaith yn cael ei archebu yn unol â rhan 20.17 o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol "*Pan archebir gwaith, nwyddau neu wasanaethau yn llafar oherwydd brys, rhaid anfon archeb swyddogol ysgrifenedig.*"**
- **Dylid bod gan y swyddogion sy'n llenwi'r taflenni TR258 dystiolaeth o hawliau swyddogion ynghyd ag enghraifft o'u llofnod.**
- **Dylid ystyried cychwyn trefn o fonitro'r amser rhwng logio galwadau ac amser cwblhau gwaith.**
- **Dylid cymryd i ystyriaeth os ydyw o fudd i gael cytundeb lefel gwasanaeth cyfredol rhwng Gwasanaethau Eiddo a'r Adran Ddarparu a Hamdden.**
- **Dylid sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o'r drefn briodol pan mae angen cysylltu gyda'r Ddesg Gymorth Cynnal a Chadw tu allan i oriau gwaith arferol.**

# RHEOLAETH CYFLUNIAD
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Gwerthuso cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion y Cyngor o gyfluniadau caledwedd a meddalwedd.

Cwmpas yr Archwiliad

'Roedd yr Archwiliad yn cynnwys gwerthusiad o'r offer rheolaeth cyfluniad yn ogystal â'r cofnodion a goladwyd gan yr Uned TG.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar adeg yr archwiliad, 'roedd yr Uned TG wedi prynu offer rheolaeth cyfluniad arbenigol, a 'roedd yn y broses terfynol o'i gyflwyno. Mae gallu'r offer yn cynnwys yr holl ofynion angenrheidiol er mwyn i arolygaeth caledwedd a meddalwedd yr Awdurdod fod yn effeithiol.

Nid oedd ymgais Archwilio i gysoni cyfanswm nifer y cyfrifiaduron ar y gwahanol fasau-data a oedd ar gael yn ystod y gwaith hwn yn llwyddiannus. Mae manylion wedi ei gyrru i'r Uned TG, ac maent wedi cydnabod y mater ac yn ymgymryd â gwaith sylweddol i gywiro'r bylchau.

Mae'n rhaid cael perthynas agosach rhwng y gwahanol fasau data er mwyn sicrhau cywirdeb pob set o gofnodion. Mae ymarferiad galw am ddychwelyd glinfyrddau wedi ei gynllunio cyn diwedd y flwyddyn, mae hyn yn cael ei gefnogi gan yr archwilwyr gan ei fod yn sicrhau cyflawnrwydd cofnodion a gosod y meddalwedd rheolaeth priodol.

Er mwyn cael cofnodion cyflawn a chywir, bydd yn rhaid monitro a chofnodi adleoliad cyfrifiaduron ar ôl i'r Uned TG eu gosod.

***Yn dilyn yr archwiliad a cyhoeddi adroddiad drafft, gwnaethpwyd gwaith sylweddol gan yr Uned TG ac mae cynydd arwyddocaol wedi ei wneud. Mae Ebrill 2010 wedi ei bennu fel dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith yma.***

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o'r dulliau sydd mewn lle ar gyfer rheolaeth cyfluniad gan, er bod y rheolaethau mewn lle yn gyfredol, mae gwendidau blaenorol yn eu disodli ac angen sylw. Mae prif argymhellion yr adroddiad ac sydd angen gweithrediad ar unwaith fel a ganlyn:**

- **Dylid cynnal cysoniad cyn gynted ac y gorffennir y gwaith o osod y meddalwedd rheoli cyfluniad a'r meddalwedd gwrth-faleisus er mwyn sicrhau cymaint â sydd bosib bod nifer y cyfrifiaduron yn cytuno, yn ôl swm ac o fewn pob safle sydd wedi ei ddiffinio/Uned Sefydliadol, ar bob system.**
- **Dylid cysoni rhestr Archwilio Mewnol o gyfrifiaduron sydd yn debyg o fod yn segur neu'n anactif gyda chofnodion caffael a gwaredu sydd ym masau data'r Uned, a thrwy hynny cyfrif am yr anghysondebau. Dylid clirio cyfrifon cyfrifiaduron segur neu allan o ddefnydd o'r "Active Directory".**
- **Dylai staff TG sy'n ymweld ag unrhyw safle gymryd y cyfle i gasglu data am offer a rhifau cyfresol wrth ymweld â safle er mwyn bod y basdata yn cael ei ddiweddaru'n barhaus.**
- **Dylai canslo aelodaeth grwp gweinyddwyr lleol ar gyfer defnyddwyr cyffredin cyn gynted a phosib.**
- **Dylid cynhyrchu ac archwilio adroddiadau safonol y meddalwedd rheoli cyfluniad ar statws client yn rheolaidd er mwyn adnabod unrhyw gyfrifiaduron sydd ddim yn ymateb.**

# LLWYBRAU CYHOEDDUS
## Rheoleiddio

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r rheolaethau sydd yn eu lle gogyfer sicrhau bod taliadau a wneir i gynnal a chadw llwybrau cerdded Gwynedd yn cyfrannu at sicrhau mynediad effeithlon i gerddwyr a bod y Map a'r Datganiad Swyddogol yn cael eu cadw'n gyfredol.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Lluniwyd yr adroddiad drwy asesu trefniadau cyfredol Cyngor Gwynedd gogyfer ad-dalu cynghorau cymuned i gynnal llwybrau'r Awdurdod. Yn ogystal ystyriwyd oblygiadau Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd ar y gwasanaeth.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd :

- Polisïau Gorfodaeth a Gweithredu heb eu sefydlu yn unol ag amserlen Cynllun Gweithredu 2008/11.
- Diffyg system sy'n galluogi'r Uned Hawliau Tramwy i gofnodi a monitro cwynion am lwybrau.
- Dim trefniadau mewn lle sy'n galluogi'r Gwasanaeth i fonitro'r gwaith mae cynghorau cymuned yn ei wneud ar eu rhan.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau'r Uned Hawliau Tramwy gogyfer rheoli llwybrau cyhoeddus. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu, ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Hawliau Tramwy geisio glynu at amserlen Cynllun Gweithredu 2008/11 Gwasanaeth Amgylcheddol gogyfer llwybrau categori 1 a 2.**
- **Dylid sicrhau bod arwyddion llwybrau cyhoeddus safonol yn cael eu gosod ar ffyrdd yr Awdurdod er mwyn dangos pob llwybr categori 1 a 2.**
- **Dylid sefydlu system sydd yn galluogi'r Uned Hawliau Tramwy i gofnodi'r cwynion a dderbynnir ynghyd a'r ymateb a'r camau a gymerwyd i ddatrys y broblem.**
- **Dylai'r Uned Hawliau Tramwy sicrhau fod cytundeb lefel gwasanaeth sy'n bodoli rhwng Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned Gwynedd yn cael eu hadolygu. Dylai'r cytundeb ddangos yn glir pa lwybrau sydd angen sylw.**
- **Dylai'r Arolygwyr Llwybrau Cyhoeddus ymweld â sampl o lwybrau cyhoeddus o fewn eu hardaloedd ble mae'r cynghorau cymuned a chyfrifoldeb am eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau fod y gwaith ar y llwybrau o safon ddisgwyliedig.**
- **Dylai'r Uned Hawliau Tramwy hysbysu'r cynghorau cymunedol o'r angen i gyflwyno eu ceisiadau am ad-daliad y grant am gynnal a chadw'r llwybrau unwaith y byddai'r gwaith cynnal a chadw wedi ei gwblhau gan y contractwr.**

# GRANT ANNIBYNIAETH A LLES 2008-2011
## Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod yr ymgeisydd yn cyflwyno ffurflen gais safonol, mai ond prosiectau dilys sy'n cael ei ariannu, bod prosiectau yn cydymffurfio gydag amodau'r grant, bod y grant wedi ei gyfrifo'n gywir, bod trefn gwirio ac ardystio cywir a bod y grant yn cael ei dalu, bod y wybodaeth yn gywir yn y Cyfriflyfr Ariannol, a bod trefniadau monitro mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd ceisiadau a thaliadau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol cyflawn diwethaf, sef 2008/09.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau gweinyddu Grant Annibyniaeth a Lles 2008-2011. Fodd bynnag, mae ambell enghraifft o weithredu'n groes i ofynion y darparwr grant sef Llywodraeth y Cynulliad. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau gweinyddu Grant Annibyniaeth a Lles 2008-2011 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, mae un argymhelliad yn yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnwys logos y darparwr grant ar unrhyw ddeunydd marchnata a gyhoeddir.**

# CYNNAL A CHADW TAI CYNGOR - LLIF GWAITH
## Tai

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol cadarn yn bodoli i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli llif gwaith yr Uned Cynnal a Chadw Tai Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio y rheolaethau mewnol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer dyrannu tasgau cynnal a chadw i'r gweithlu mewnol, gan gynnwys a gwirio sampl o gardiau gwaith er mwyn sicrhau bod rhain yn cael eu gweithredu yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan gwelwyd bod trefniadau priodol a chadarn mewn lle ar gyfer rheoli Llif Gwaith Cynnal a Chadw Tai. Cynhaliwyd profion archwilio ar 22 o feysydd rheolaeth fewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 21 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cynnal a Chadw Tai Cyngor - Llif Gwaith gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys un argymhelliad:**

- **Dylid ystyried cysoni rhwng y system cynnal a chadw â'r system dai unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn TASK yn gyflawn a chywir.**

# PARTNERIAETH GWELLA TAI - "HOUSEPROUD"
## Tai

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli yn y broses o weinyddu a gweithredu'r cynllun "Houseproud".

Cwmpas yr Archwiliad
Sicrhau bod y cytundeb ffurfiol yn bodoli rhwng y Cyngor a'r "Home Improvement Trust" a'i fod yn cynnwys cymalau priodol yn ogystal â sicrhau bod y gweithrediad yn unol â'r cytundeb a bod y cynllun yn cael ei farchnata'n briodol.

Prif Ddarganfyddiadau
Y darganfyddiad mwyaf welwyd wrth wneud yr archwiliad yma oedd y gwendid wrth farchnata'r cynllun a'r diffyg yn ei ddefnydd. Os nad oes defnydd o'r cynllun, mae cwestiwn mawr yn cwmpasu dilysrwydd bod yn rhan ohono, yn enwedig gan fod costau gweinyddol blynyddol ynghlwm. Gwelwyd hefyd fod anghysondebau wedi eu methu a ddim wedi eu cwestiynu cyn talu rhwng y swm am y ffi weinyddol a nodir ar y cytundeb a’r swm ar yr anfoneb.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Partneriaeth Gwella Tai - "Houseproud" gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid bod cymal yn y cytundeb sy'n nodi'r drefn i'w ddilyn gydag unrhyw gwyn.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw anghysondebau mewn anfonebau yn cael eu codi cyn eu talu. Ymhellach, dylai’r swyddogion sy'n gwirio'r anfoneb ac yn llofnodi'r slip godio sicrhau eu bod wedi eu gwirio'n briodol.**
- **Dylid bod pob ymdrech yn cael ei wneud i farchnata'r cynllun.**
- **Ymhellach, dylid cwestiynu os oes unrhyw fantais i’r Cyngor fod yn rhan o'r cynllun yma os yw'r diffyg defnydd yn parhau.**

# ARCHWILIAD YMATEBOL – YSGOL UWCHRADD TYWYN
## Addysg

Pwrpas yr Archwiliad

Yn unol â chais y Pennaeth Cyllid cwblhawyd archwiliad ymatebol ar Ysgol Uwchradd Tywyn. Gwnaethpwyd hyn oherwydd derbyniwyd honiad nad oedd yr ysgol wedi gweithredu yn amserol yn sgil rhagolygon ariannol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008. Roedd hyn wedi arwain at sefyllfa oedd yn ymddangos yn argyfyngus erbyn Mai 2009.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwblhawyd yr archwiliad yn ystod tymor yr haf 2009. Archwiliwyd rhagolygon Ysgol Uwchradd Tywyn am gyfnod 2009/10, 2010/11 a 2011/2012 a chynllun diweddaraf yr ysgol ynghyd â'r camau oedd yn eu lle ar gyfer Awst 2009, Awst 2010 ac Awst 2011 er mwyn delio â'r sefyllfa ariannol.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar adeg yr archwiliad, gwelwyd fod arbedion ariannol Awst 2009 wedi eu hadnabod a'u gweithredu ond fod gwaith pellach yn angenrheidiol er mwyn adnabod arbedion Awst 2010 ac Awst 2011.

**Barn yr Archwiliad**

**Mae'r archwiliwr o'r farn y dylai'r camau angenrheidiol fod wedi cael eu trafod mewn mwy o fanylder cyn mis Mai 2009 a dylai bod camau wedi cael eu rhoi yn eu lle ynghynt i ddarganfod arbedion ariannol o Awst 2009. Mae'r argymhellion a ddynodir yn yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Os yw rhagolygon ariannol ysgol yn awgrymu bydd angen lleihau lefel staffio unrhyw ysgol, dylai'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg perthnasol holi'r ysgol i weld os ydynt wedi ystyried y camau diswyddo priodol. Os nad ydynt, dylid rhoi arweiniad i'r ysgol ar y camau priodol i'w dilyn.**
- **Os yw Penaethiaid yn rhagweld bod rhaid iddynt leihau lefel staffio eu hysgol yna dylai'r Penaethiaid gysylltu gyda'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg yn syth er mwyn derbyn arweiniad.**
- **Os yw Penaethiaid yn rhagweld bod rhaid iddynt leihau lefel staffio eu hysgol yna dylid cychwyn proses ymgynghori gyda undebau athrawon.**
- **Dylid sicrhau unwaith y bydd yr undebau wedi ymateb i'r meini prawf a'r meini prawf hynny wedi eu cyflwyno i'r staff bod yr ysgol symud ymlaen i adnabod pa arbedion sydd i'w gwneud yn Awst 2010 cyn gynted â phosibl er mwyn cychwyn y broses angenrheidiol mewn amser digonol.**